**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Sir P. Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sir P. Farley (Is-gadeirydd) |
| | Cynghorwyr Sir: L. Guppy, R. Harris, D. Jones, M. Powell. |
| | **Aelodau Ychwanegwyd:** |
| | **Aelodau'n pleidleisio ar faterion addysg yn unig:** |
| | M Fowler (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr) |
| | Mynychodd y Cynghorydd Sir V. Smith y cyfarfod drwy wahoddiad y Cadeirydd. |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Matthew Lewis (Countryside) | Countryside Manager |
| Matthew Gatehouse | Policy and Performance Manager |
| Mike Moran | Community Infrastructure Coordinator |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**CYNRYCHIOLWYR ERAILL:**

Mr. E. Price - Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir D. Blakebrough, P. Clarke

K. Plow (Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion).

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Gwnaeth y Cynghorydd Sir P. Farley ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 5 - Darpariaeth Chwarae Haf 2016, gan fod Cyngor Tref Cas-gwent yn buddsoddi yng nghynllun chwarae yr haf a'i fod yn aelod o Gyngor Tref Cas-gwent.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir P. Farley ddatganiad buddiant personol yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 6b - Perfformiad Chwarter 2 Gwasanaethau Plant, gan ei fod yn Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd The Dell ac yn Ymddiriedolydd Ymddiriedolaeth Llesiant Pensiynwyr Cas-gwent.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir L. Guppy ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau, yng nghyswllt eitem agenda 5 -

Darpariaeth Chwarae Haf 2016, gan ei bod yn aelod o Gyngor Cymuned Rogiet sy'n cyfrannu at y ddarpariaeth chwarae.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir R. Harris ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt eitem agenda 5 - Darpariaeth Chwarae Haf 2016, gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref y Fenni a gyfrannodd gyllid yn 2016 ar gyfer y Cynllun. Mae gan y Cyngor Tref hefyd ddarpariaeth yn y gyllideb am gyfraniad yn 2017.

Gwnaeth y Cynghorydd Sir M. Powell ddatganiad buddiant personol heb fod yn rhagfarnu yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau yng nghyswllt eitem agenda 5 - Darpariaeth Chwarae Haf 2016 gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref y Fenni sydd â darpariaeth yn y gyllideb i gefnogi’r ddarpariaeth yma.

**2. <u>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.</u>**

Cafodd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc 3 Tachwedd 2016 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Wrth wneud hynny, nodwyd bod y Rheolwr Cyllid wedi siarad gyda'r Aelod Cynulliad, y Gweinidog Cyllid Cysgodol, parthed diffyg cyllid mewn Gwasanaethau Plant. Bydd y Rheolwr Cyllid yn paratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol yn amlinellu'r ymateb a gafwyd.

**3. <u>Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ynghylch Cymwysterau Newydd.</u>**

**<u>Cyd-destun</u>**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr. E. Price, Prif Gynghorydd Her y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), parthed y cymwysterau newydd ar Gyfnod Allweddol 4 o haf 2017.

**<u>Materion Allweddol:</u>**

O 2017 ymlaen, ni fydd un prif fesur i ganolbwyntio arno ar lefel ysgol. Yn lle hynny ystyrir cyfres o fesurau yn cynnwys:

- Lefel 2 cynhwysol (mesurau Bagloriaeth Sylfaenol a Chenedlaethol Cymru o 2018)
- Trothwy Lefel 2 (2017 yn unig)
- Trothwy Lefel 1 (2017 yn unig)
- Sgôr pwyntiau wedi'i gapio (mesur diwygiedig 'Cap 9' o 2017)

Mae'r newidiadau i fesurau perfformiad yn cyd-fynd gydag argymhellion Dyfodol Llwyddiannus a bydd yn cael yr effaith gadarnhaol o ledaenu dewis cwricwlwm.

Caiff pob diweddariad eu dodi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**2016**

- Newid i garfan Blwyddyn 11 o'r cohort presennol seiliedig ar 15 oed.
- Gwerth cyfwerth ag uchafswm o ddwy TGAU i unrhyw gymhwyster unigol heblaw TGAU wrth gyfrif pob mesur perfformiad.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

**2017**

- Nid oes angen Dangosydd Pwnc Craidd erbyn hyn.
- Newidiadau i'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio.
- Dim ond y cymwysterau diwygiedig newydd ar gyfer Saesneg/Cymraeg, mathemateg sy'n cyfrif tuag at ofynion y pynciau penodol hyn o fesurau (nid yw cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif mwyach).
- Gwerth cyfwerth ag uchafswm o ddwy TGAU ar gyfer cyfanswm gwerth cyfraniad cymwysterau heblaw TGAU yn y mesurau trothwy.
- Nid oes gan Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach mwyach werth cyfraniad mewn mesurau Cyfnod Allweddol 4 a dim ond ar gyfer cyflenwi ôl-16 y cânt eu cymeradwyo.
- Cymwysterau o 60 hyd at 119 (cynhwysol) oriau dysgu wedi'i llywio yn gyfwerth â 0.5 TGAU
- Dyfarnu cymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru am y tro cyntaf.

**2018**

- Mesurau Bagloriaeth Cymru yn disodli mesurau trothwy.
- Ar gyfer gwyddoniaeth, dim ond cymwysterau TGAU sy'n cyfrif tuag at ofynion pwnc penodol y Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio; nid yw cymwysterau gwyddoniaeth heblaw TGAU bellach yn cyfrif tuag at elfennau gwyddoniaeth ond gallant gyfrif tuag at 'bedwar cymhwyster gorau arall' y dysgwr.

Ni chaiff unrhyw un mesur ei danlinellu ar lefel ysgol. Bydd gan y Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio statws tebyg i fesurau Lefel 2 cynhwysol a Bagloriaeth Cymru. Dylid defnyddio cyfres o fesurau i ystyried perfformiad ysgolion o wahanol onglau. Bydd pa fesurau i'w defnyddio yn dibynnu ar y cwestiynau neilltuol a gaiff eu gofyn.

**Crynodeb newidiadau – 2017**

- Bydd unrhyw gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 heblaw TGAU yn werth uchafswm o ddwy TGAU. Gellir dal i gymryd cymwysterau presennol ond bydd cap o gyfwerth â dwy TGAU ar werth perfformiad.

- Ni chaiff y Dangosydd Pwnc Craidd bellach ei gyhoeddi fel mesur perfformiad.

- Defnyddir y TGAU dilynol newydd fel elfennau llythrennedd a rhifedd mesur Cynhwysol Lefel 2:

  - Iaith Saesneg/Iaith Gymraeg.
  - Mathemateg neu Rifedd Mathemateg (p'un bynnag y mae'r dysgwr orau ynddo).

- Ni fydd cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at ofynion llythrennedd mesurau ond gallant ddal i gyfrif tuag at fesurau penodol dim-pwnc.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

**Y Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio 'newydd'**

- Bydd y sgôr yn seiliedig ar naw cymhwyster yn hytrach nag wyth. Pump o'r naw cymhwyster a ddefnyddir i gyfrif y sgôr fydd:

  - TGAU Iaith Saesneg neu TGAU Iaith Gymraeg (p'un bynnag y mae'r dysgwr orau ynddo, ni fydd llenyddiaeth yn cyfrif).

  - TGAU Mathemateg - Rhifedd a TGAU Mathemateg.

  - Dau gymhwyster gwyddoniaeth gorau'r dysgwr (o 2018, eu dau TGAU gwyddoniaeth gorau.

- Y pedwar cymhwyster arall fydd cymwysterau eraill gorau (gradd uchaf) y dysgwr. Gallai'r rhain fod yn TGAU, cymwysterau galwedigaethol neu Dystysgrif Her Sgiliau (craidd Bagloriaeth Cymru newydd).

**Crynodeb newidiadau o 2818 (dysgwyr cyfredol Blwyddyn 10)**

- Ar gyfer gwyddoniaeth yn unig, bydd cymwysterau TGAU yn cyfrif tuag at ofynion pwnc penodol y sgôr pwyntiau wedi'i gapio.

- Ni fydd cymwysterau gwyddoniaeth heblaw TGAU bellach yn cyfri tuag at elfennau gwyddoniaeth ond gallant ddal i gyfrif tuag at 4 gymhwyster arall gorau y dysgwr.

- Cyflwynir mesurau newydd yn ymwneud â chyflawni Bagloriaeth Cymru newydd ar lefel Sylfaen a Chenedlaethol (Lefelau 1 a 2).

- Bydd y mesurau newydd hyn yn disodli mesurau trothwy cyfredol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 2 cynhwysol.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor Dethol bryder na fydd cymwysterau llenyddiaeth yn cyfrif tuag at ofynion penodol tri phwnc mesurau o haf 2017 ymlaen. Cydnabu cynrychiolydd EAS deimladau'r Pwyllgor yng nghyswllt cymwysterau llenyddiaeth Saesneg. Fodd bynnag, nodwyd fod rhai ysgolion wedi canolbwyntio ar lenyddiaeth ar gyfer disgyblion oedd wedi cael trafferthion gyda'r cymhwyster llenyddiaeth ar C ac uwch ar draul eu llwyddiant yn Iaith Saesneg.

- Gofynnodd y Pwyllgor Dethol i gynrychiolydd gyfleu teimladau'r Pwyllgor yng nghyswllt ei farn ar bwysigrwydd cymhwyster Llenyddiaeth Saesneg.

- Cymwysterau galwedigaethol - bydd EAS yn annog penaethiaid ysgol i wneud yr hyn sydd orau ar gyfer eu dysgwyr unigol, er gydag Estyn, bydd y penaethiaid ysgol yn gwybod am y mesurau pennawd hefyd.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed os byddai'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyflwyniad yn ddefnyddiol yn gyffredinol, dywedodd cynrychiolydd EAS y byddai angen gweld sut mae'r mesurau yn datblygu dros gyfnod cyn y gellid ateb y cwestiwn.

- Nodwyd yr ymgynghorwyd gyda phrifysgolion a chyflogwyr yng nghyswllt y newidiadau arfaethedig fyddai'n cael eu cydnabod gan y grwpiau hyn.

- Yng nghyswllt Bagloriaeth Cymru, nodwyd nad oedd pob prifysgol yn Lloegr yn cydnabod y cymhwyster yma. Mynegwyd pryder y gallai hyn lesteirio myfyrwyr o Gymru rhag medru astudio mewn rhai prifysgolion yn Lloegr.

- Mynegwyd pryder y caiff nifer o gymwysterau, yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol, eu tynnu o'r rhestr gymeradwy fydd yn cael effaith sylweddol ar y disgyblion sy'n astudio'r cyrsiau hyn. Credai'r Pwyllgor Dethol, ar ôl cael manylion o'r diffiniad a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer myfyrwyr yn astudio'r cyrsiau hyn, y byddai’n fanteisiol.
- Ystyriwyd fod y newidiadau a gynigir ar gyfer 2017 yn gostwng opsiynau cwricwlwm ar gyfer disgyblion yn hytrach na rhoi dewis ehangach.

- Mae'n bwysig i'r Awdurdod ystyried sefyllfa gymharol haf 2017 gyda'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a nodi'r newidiadau a ddaw yn 2017 a 2018.

- Nodwyd y bydd newidiadau sylweddol yn Lloegr yn haf 2017. Ni fydd yn rhaid i ysgolion mwyach adrodd eu cymwysterau TGAU yn ôl graddau. Yn lle hynny, cyflwynir system rhifau yn amrywio o 9 i 1, yn hytrach na A* i G, neu U. Bydd hyn yn golygu y daw'n gynyddol anodd i gymunedau ar y gororau yn Sir Fynwy i gymharu ysgolion.

- Nodwyd fod ysgolion ar ddwy ochr y ffin yn cystadlu ar berfformiad ond y bydd yn anos cyflawni hyn os yw'r systemau a weithredir gan ysgolion yng Nghymru ac ysgolion yn Lloegr yn wahanol. Ystyriwyd y dylai EAS roi peth cefnogaeth ychwanegol i ysgolion sir Fynwy i esbonio'r gwahaniaethau. Dywedodd cynrychiolydd EAS y byddai'n cydlynu gyda Nicola Allan, cynghorydd her Sir Fynwy, i weithio gyda'r Awdurdod a herio cynghorwyr yn ysgolion uwchradd Sir Fynwy i ddynodi'r anghenion a'r gofynion a gweithio gyda phenaethiaid ysgol yn unol â hynny.

- Nodwyd y cynhelir etholiadau lleol ym Mai 2017 a'i bod yn debygol y caiff Aelodau newydd eu hethol i wasanaethu ar y Cyngor newydd. Felly, ni fydd unrhyw gymhariaeth pan gyhoeddir canlyniadau arholiadau yn ddiweddarach yn 2017. Bydd angen esboniad am y mater hwn gan gofio am y newidiadau a gyflwynir parthed y mesurau adrodd newydd a'r Aelodau sydd newydd eu hethol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd EAS am roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y mesurau adrodd newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4.

- Gofynnwyd i gynrychiolydd EAS gyfleu teimladau'r Pwyllgor yng nghyswllt ei sylwadau ar bwysigrwydd cymhwyster Llenyddiaeth Saesneg.

- Gwahoddid EAS i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol i roi diweddariadau pellach yng nghyswllt y mesurau adrodd newydd.

4. **Darpariaeth Chwarae Haf 2016.**

**Cyd-destun:**

Derbyn diweddariad ar y model diwygiedig ar gyfer darpariaeth chwaraeon wedi'i staffio a weithredwyd ar gyfer cyfnod haf 2016.

**Materion Allweddol:**

Tuag at ddiwedd 2015, roedd y Pwyllgor Dethol wedi derbyn adroddiad ar nifer o faterion cysylltiedig â chwarae yn cynnwys newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth chwarae wedi'i staffio ar gyfer 2016 ac amserlen ar gyfer cynhyrchu'r Archwiliad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae ar gyfer 2016/17.

Mewn blynyddoedd blaenorol mae'r Cyngor wedi darparu cynlluniau chwarae gwyliau haf yn y pedair canolfan hamdden ynghyd â darpariaeth "lloeren" yng Nghanolfan Gymunedol Bulwark, gyda'r ddarpariaeth olaf hon yn cael ei rhedeg ar ran Cyngor Tref Cas-gwent oedd hefyd yn talu amdano. Yn ymarferol, roedd y cynlluniau chwarae yn fath o ofal plant a gofrestrwyd gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) oedd yn cyflenwi darpariaeth chwarae wedi'i staffio am bedair wythnos yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer plant rhwng 5 a 11 oed.

Y cynnig pan gafodd y mater hwn ei graffu ddiwethaf gan y Pwyllgor Dethol oedd symud i fodel o ddarpariaeth chwarae yn haf 2016 oedd yn cynnwys dwy brif elfen - gwersylloedd chwaraeon ym mhedair canolfan hamdden a sesiynau chwarae mynediad agored a gynhelid mewn nifer o safleoedd cymunedol ar draws y sir. Roedd darparu chwarae mynediad agored yn ddibynnol ar ganlyniad ymgynghoriadau gyda phartneriaid, yn fwyaf arbennig y cynghorau tref a chymuned oherwydd y ddibyniaeth ar eu cyllid i alluogi'r

cynlluniau hyn i ddigwydd. Bu'r trafodaethau gyda'r cynghorau tref a chymuned yn llwyddiannus a chytunodd pob un ohonynt i gadw (ac mewn rhai achosion gynyddu) eu cyfraniadau ar y lefelau presennol.

Cafodd y gwersylloedd chwaraeon (Gemau Sir Fynwy) eu rhedeg gan Gwasanaethau Hamdden fel cynlluniau hunan-ariannu ar sail ddyddiol dros gyfnod o bump wythnos (25 Gorffennaf i 26 Awst 2016) rhwng 9.00am a 3.00pm. Nid oedd yn rhaid cofrestru'r rhain gyda AGGCC gan eu bod yn cael eu hystyried fel gweithgareddau chwaraeon yn hytrach na darpariaeth chwaraeon.

Cafodd y sesiynau chwarae mynediad agored eu trefnu a'u rheoli ar ran y Cyngor gan Wasanaeth Chwarae Torfaen (TPS). Cawsant eu cynnal dros gyfnod 19 diwrnod (1 i 25 Awst 2016).

Roedd presenoldeb yn y sesiynau mynediad agored yn rhad ac am ddim ac yn hollol gynhwysol ar gyfer plant gydag anableddau/anghenion cymorth ychwanegol. Oherwydd bod y sesiynau'n parhau am ychydig dan ddwy awr yr un, nid oedd angen i'r sesiynau hyn gofrestru gyda AGGCC chwaith.

Cafodd y cynlluniau chwarae mynediad agored eu staffio gan gyfuniad o staff cyflogedig yn bennaf a rhai gwirfoddolwyr ac yn union cyn dechrau'r cynlluniau cafodd yr holl staff wythnos lawn o hyfforddiant pan gyflwynwyd dros 40 gwahanol fodiwl i sicrhau fod gan y staff y sgiliau angenrheidiol i weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Wrth gyflwyno'r cynlluniau mynediad agored, cydymffurfiodd TPS gyda'r holl bolisïau a gweithdrefnau diogelu yn unol â Chyngor Sir Fynwy a Bwrdd Diogelu De Ddwyrain Cymru, oedd yn un o'r darpariaethau yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y ddau awdurdod.

Roedd gan yr holl safleoedd darpariaeth adeilad diogel yn gysylltiedig gydag ardaloedd awyr agored, fel bod yr holl blant bob amser mewn gosodiad diogel a chefnogol. Yn ystod y cyfnod arweiniol, bu cyfathrebu agos ac effeithlon gyda'r Tîm Plant gydag Anableddau yn Gwasanaethau Cymdeithasol. Dyrannwyd gweithwyr cefnogaeth un i un i blant anabl a rhai gydag anghenion cefnogaeth ychwanegol i sicrhau eu bod yn teimlo fod ganddynt gefnogaeth mewn amgylchedd cynhwysol. I nifer fach o blant gydag anghenion cefnogaeth dwys, roedd darpariaeth arbenigol yng Nghanolfan Byw Llesol Pont-y-pŵl a dyrannwyd pum lle yn y ddarpariaeth hon i blant o Sir Fynwy.

Cyn mynychu eu sesiwn mynediad agored gyntaf, roedd yn rhaid i bob plentyn gofrestru a chymerwyd enwau a manylion cyswllt eu rhieni/gwarcheidwaid rhag ofn bod unrhyw un o'r plant eisiau gadael

cyn diwedd unrhyw sesiynau a fynychent. Mynychodd mwyafrif helaeth y plant y rhan fwyaf o sesiynau yn eu dewis safle a mynychodd nifer o blant sesiynau yn y bore a'r prynhawn. Ni chafwyd unrhyw anawsterau arbennig ac ni chododd unrhyw faterion diogelu gydag unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod y bu'r cynlluniau'n gweithredu.

Rhoddir ystyriaeth yn awr i'r darpariaethau ar gyfer cyfnod haf 2017. Fe wnaeth y Gemau Sir Fynwy, sy'n ariannu'u hunain, yn y canolfannau hamdden barhau dros gyfnod hanner tymor mis Hydref ac mae'n debygol y bydd darpariaethau tebyg dros bum wythnos dros gyfnod gwyliau haf y flwyddyn nesaf. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda TPS parthed y darpariaethau mynediad agored ar gyfer 2017 a hefyd gyda'r gwahanol gynghorau tref a chymuned mewn ymdrech i sicrhau eu cefnogaeth ariannol barhaus.

**Craffu Aelodau:**

- Mae'r berthynas waith gyda chynghorau tref a chymuned wedi gwella eleni.

- Gofynnodd yr Is-gadeirydd am gyflwyno'r adroddiad hwn i Gyngor Tref Cas-gwent gyda golwg ar ailagor trafodaeth ar y mater.

- Tudalen 24 yr agenda - angen gwelliant ar frig y dudalen, sef 80% nid 8%.

- Mewn ymateb  i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed y 48 cynllun chwarae, nodwyd fod Sir Fynwy wedi cynnal 12 ohonynt a Thorfaen wedi cynnal 36 o'r cynlluniau. Gallai Torfaen gynnal mwy o gynlluniau gan fod ganddynt wasanaeth chwarae a gyllidir yn llawn gyda chyllideb a chymorth grant ychwanegol, yn ogystal â bod â rhaglen cynllun chwarae oedd wedi sefydlu mwy.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd ei bod yn anodd cymharu eleni gyda'r llynedd gan fod yr Awdurdod yn rhedeg rhywbeth gwahanol iawn. Mae cyfanswm nifer y plant sy'n defnyddio'r canolfannau hamdden wedi gostwng o gymharu gyda nifer y plant sy'n defnyddio'r cynlluniau chwarae. Fodd bynnag, mae cyfanswm nifer y plant sy'n cymryd rhan wedi aros yr un fath.

- Mae gan yr Awdurdod bellach gynnig chwarae mwy cyson, hollgynhwysol.

- Mae’r cydlynu gyda Gwasanaethau Plant yn dda.

- Ymrwymedig i fodel chwarae mynediad agored.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am ddarpariaeth chwarae sefydlog o fewn y Sir, nodwyd na fu erioed gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer darpariaeth chwarae sefydlog. Mae timau chwarae yn archwilio offer ac weithiau mae angen iddynt symud offer. Mae swyddogion yn gorfod adolygu offer chwarae sefydlog ar draws Sir Fynwy.

- Ystyriwyd y gallai cynghorau tref a chymuned gymryd mwy o gyfrifoldeb yng nghyswllt darparu offer chwarae sefydlog.

- Nodwyd mai ychydig iawn o fuddsoddiad fu yn y cynlluniau chwarae haf a chanmolwyd swyddogion am sicrhau darpariaeth y gwasanaeth yma.

**<u>Casgliad y Pwyllgor</u>**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Anfon yr adroddiad at y cynghorau tref a chymuned gyda golwg ar ymchwilio cefnogaeth bosibl.

- Disgwylir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru am y grant Teuluoedd yn Gyntaf.

- Pwysleisiwyd na chododd unrhyw faterion diogelu yn ymwneud â'r Cynllun Chwarae Haf.

- Rhoddwyd adborth ardderchog ac roedd Cynllun Chwarae Haf 2016 yn lasbrint am y ddwy flynedd nesaf.

- Roedd y cynllun yn annog symudedd ac ymarfer ymysg pobl ifanc

5. **<u>Amcanion Gwella a Dangosyddion perfformiad - 2016/17 Chwarter Diweddariad 2.</u>**

**<u>Cyd-destun:</u>**

Derbyn data perfformiad chwarter 2 ar gyfer yr Amcanion Gwella sydd o fewn cylch gorchwyl Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc:

- Amcan Gwella 1 - Gwella ar bob cyfnod allweddol o addysg.

- Amcan Gwella 2 - Diogelu pobl, p'un ai’n hen neu ifanc, tra'n gostwng dibyniaeth pobl ar ofal cymdeithasol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

Derbyn y perfformiad diweddaraf ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol allweddol sydd dan gylch gorchwyl y pwyllgor.

**Materion Allweddol:**

Caiff Amcanion Gwella eu gosod yn flynyddol gan y Cyngor i gyflawni blaenoriaethau, caiff y rhain eu gosod yng Nghynllun Gwella 2016/17. Er bod ffocws amcanion ar yr hirdymor, mae'r gweithgareddau penodol sy'n eu cefnogi â ffocws neilltuol ar y flwyddyn i ddod.

Mae gweithgaredd sy'n cyfrannu at gyflawni rhai amcanion yn gorgyffwrdd â chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau Dethol a rhoddir adroddiad ar y rhain hefyd i bwyllgor(au) eraill perthnasol.

Adroddwyd y cynnydd ar y rhan fwyaf o gamau gweithredu a dangosyddion perfformiad sy'n ffurfio rhan o amcan Gwella 1 i Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc fel rhan o adroddiad Prif Swyddog y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc. Oherwydd pwysigrwydd bod Aelodau'n craffu ar gynnydd penodol ar y camau gweithredu, dangosyddion perfformiad a thargedau a nodir yng Nghynllun Gwella 2016/17, cafodd diweddariad cynnydd llawn ar amcan gwella 1 hefyd ei orffen.

Caiff yr Amcanion Gwella eu gwerthuso ar ddiwedd y flwyddyn (2016/17) yn seiliedig ar fframwaith hunanwerthuso y Cyngor, a nodir yng Nghynllun Gwella 2016-17. Rhoddir adroddiad ar y perfformiad arnynt i'r Pwyllgor Dethol ac yng Ngham 2 y Cynllun Gwella a gyhoeddir ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae'n debyg mai hyn fydd cylch blynyddol olaf Cynllunio Gwella yn y ffurf yma. Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal dau asesiad sylweddol o angen a llesiant o fewn y Sir fel canlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi tystiolaeth sylfaen llawer dyfnach o lesiant yn y Sir a chaiff ei defnyddio i adolygu amcanion gwella presennol y Cyngor i baratoi ar gyfer cyhoeddi amcanion llesiant y Cyngor erbyn 31 Mawrth 2017.

Mae Atodiad C yr adroddiad yn nodi mwy o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol o'r set o Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Y prif ddiben yw amlygu'r perfformiad a gyflawnwyd hyd yma yn 2016/17. Mewn rhai achosion gall hyn arwain at ddyblygu'r dangosyddion a gafodd eisoes eu cynnwys mewn adrannau eraill o'r adroddiad. Lle mae dangosyddion yn cyfeirio at berfformiad gwasanaethau sydd dan gylch gorchwyl mwy na un pwyllgor, rhoddir adroddiad ar hyn hefyd i'r pwyllgor(au) arall perthnasol.

**Craffu Aelodau:**

- Ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, caiff gwybodaeth cohort ei gynnwys yn yr adroddiad.

- Mae 80% o gam cyntaf uwchraddio seilwaith TGCh ysgolion wedi'i gwblhau.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), nodwyd fod Estyn yn 2012 wedi dynodi rhai diffygion a heriau o fewn darpariaeth yr Awdurdod. Cynhaliwyd adolygiad cyflym o ADY yn syth wedyn. Roedd y gwaith hwn mewn tri cham a chafodd y ddau gam gyntaf eu cwblhau. Mae ein gwasanaethau yng nghyswllt darpariaeth ADY yn achos consyrn i'r holl randdeiliaid. Felly, comisiynwyd cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo gyda'r mater hwn ac ymwelwyd ag amrywiaeth o ysgolion a gosodiadau, rhai gyda chanolfannau anghenion arbennig ac ysgolion uwchradd. Bydd gan y ddwy ysgol newydd ganolfan adnoddau 55 uned. Cysylltwyd gyda phenaethiaid ysgolion yng nghyswllt yr adolygiad o ddarpariaeth ADY a buont yn gefnogol. Mae'n debygol y bydd mwy o ddirprwyad i ysgolion. Felly, mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws holl ysgolion Sir Fynwy.

- Gofynnodd y Cadeirydd am gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad o ddarpariaeth ADY i gyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

- Mae'r Awdurdod eisiau i'w holl ddisgyblion barhau mewn addysg prif ffrwd ond mae'n rhaid cydnabod y bydd plant weithiau'n wynebu heriau ac nad y gosodiad hwnnw fydd y gosodiad cywir iddyn nhw. Mae angen edrych ar y newid yn natur anghenion dysgu ychwanegol dros gyfnod. Mae ysgolion yn gweld anghenion mwy cymhleth, dwys yn gynharach ym mywydau plant. Felly mae angen dynodi'r ddarpariaeth orau ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r Awdurdod yn edrych ar ymchwilio hyn i alluogi clystyrau ysgolion i gael y ddarpariaeth hynny fel hyd yn oed os na all plant aros yn eu hysgol gartref eu hunain, y gallant aros yn llawer nes at eu cartref eu hunain. Mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau fod capasiti a'r gallu o fewn y gosodiadau ysgol i roi'r gefnogaeth honno.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed perfformiad y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau yng nghyswllt y cytundeb lefel gwasanaeth newydd, dywedodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad y byddai'n ymchwilio'r mater ymhellach ac yn adrodd yn ôl.

- Gwahoddir cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am yr angen am 'gae chwarae gwastad' parthed darpariaeth TGCh mewn ysgolion, nodwyd pan fo penaethiaid ysgolion cynradd yn cwrdd, bod mewnbwn gan y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau yn rhoi gwybodaeth ar gynnydd ac unrhyw heriau posibl. Mae'n bwysig fod y capasiti yno o fewn ysgolion. Mae swyddogion yn gweithio i sicrhau fod holl ysgolion Sir Fynwy yn derbyn y ddarpariaeth TGCh ddiweddaraf.

- Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymroddedig i adnewyddu ei phedair ysgol uwchradd.

- Gwnaed gwaith sylweddol i gyfnerthu ysgolion cynradd. Mae'r cyflwr cynradd mewn trefn dda iawn.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

- Sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Allanol. Bu newid bach mewn ffocws i'r bwrdd gan y bydd, nid yn unig yn canolbwyntio ar addysg a'r broses adfer gyfredol, ond hefyd yn gweithio gyda'r Awdurdod am wasanaethau plant a gwasanaethau cymdeithasol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am ailosod targedau 2016/17, nodwyd fod hyn oherwydd symud i gronfa ddata newydd mewn gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd nid oes digon o bwyntiau o ddata ar gael i osod y targed yma.

- Yn Sir Fynwy, am o leiaf 15 mlynedd, cafodd pawb sy'n derbyn gofal cymdeithasol oedolion holiadur rheolaidd. Mae hon yn system a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r 22 awdurdod yng Nghymru ofyn yr un cwestiynau yn yr un ffordd.

- Ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol o'r Pwyllgor Dethol, dylai data fod ar gael yn rhifyddol a hefyd fel canran.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed darpariaeth gofal cymdeithasol a ph'un a fedrai fod amrywiad daearyddol ar draws y sir, nodwyd fod gwaith yn mynd rhagddo o amgylch asesiad llesiant. Drwy gyflwyno dull seiliedig ar le, dynodwyd nad yw 'un maint yn ffitio pawb'. Felly gallai gofynion un gymuned fod yn wahanol i ofynion un arall. Ymgysylltir gyda phobl a derbynnir gwahanol sylwadau yng nghyswllt hyn.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd y crynodeb dilynol:

- Derbyn adroddiad gan Gill Lawrence parthed y gwasanaeth ADY mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Gwahodd cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau i gyfarfod yn y dyfodol i roi diweddariad ar ein perthynas gyda'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau.

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Polisi a pherfformiad am gyflwyno'r adroddiad.

6. **Gwasanaethau Plant Chwarter 2 Perfformiad.**

**Cyd-destun:**

Darparu cerdyn adroddiad sy'n ystyried perfformiad chwarter 2 mewn gwasanaethau cymdeithasol plant.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

**Materion Allweddol:**

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym o fis Ebrill 2016 ac mae wedi newid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru:

- Mae'r Ddeddf yn cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth i gyflawni llesiant.
- Mae pobl yn greiddiol i'r system newydd drwy roi llais cyfartal iddynt yn y gefnogaeth a gânt.
- Mae partneriaeth a chydweithredu yn hybu darpariaeth gwasanaeth.
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo atal cynnydd mewn angen ac mae'r help cywir ar gael ar yr amser cywir.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gael trefniadau ar waith i gasglu a dychwelyd y data ar y mesurau perfformiad statudol a fanylir yn yr adroddiad i Lywodraeth Cymru o fis Mai 2017 ymlaen. Mae'r mesurau perfformiad yn gyfuniad o ddata meintiol (rhifyddol) a data ansoddol sy'n cynnwys gofyn i bobl am eu profiad o wasanaethau cymdeithasol a ph'un ai yw wedi cyfrannu at wella eu llesiant.

Cesglir data ansoddol drwy holiaduron i rieni a phlant Yn chwarter 2 mae'r broses hon yn dal i fynd rhagddi, felly rhan o'r holl gasgliad yw'r ymatebion yn yr adroddiad yma.

Chwarter 2 yw'r casgliad llawn cyntaf o'r mesurau newydd ac mewn llawer o achosion nid oes data llinell sylfaen na chymharol ar gael. Gosodwyd targedau lle'n ymarferol ond bydd gwybodaeth well pan sefydlir data llinell sylfaen a lle mae data awdurdod lleol arall ar gael.

**Craffu Aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed ymatebion i'r holiaduron gan blant, nodwyd yr ystyriai 68% eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oeddent ei angen. Fodd bynnag, mae'r mater yma'n dal i gael ei ddadansoddi. Cynhelir mwy o ddadansoddiad pan dderbyniwyd mwy o ddata.
- Mae plant sy'n derbyn gofal bob amser yn flaenllaw mewn penderfyniadau. Y ddelfryd ym mhob achos yw bod ymyriad yn digwydd yn ddigon cynnar fel y dynodir achosion yn ddigon cynnar a chynhelir gwaith ataliol.
- Ystyriwyd y dylai'r data a gyflwynir i gyfarfodydd o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol fod ar gael yn rhifyddol wrth ochr y gwerth canran.
- Ar ôl gweld y data'n ymwneud â'r canran o blant sy'n derbyn gofal sy'n profi symud ysgol heb fod yn pontio a'r canran o blant sy'n derbyn gofal gyda thri neu fwy o leoliadau, nodwyd mai un o'r heriau yn Sir Fynwy yw daearyddiaeth y sir a allai

effeithio ar leoliad y plentyn felly, mae'r adroddiad yn dangos fod y niferoedd yn uwch nag yr hoffai'r Awdurdod ei weld oherwydd bod yr Awdurdod eisiau gweld sefydlogrwydd yn nhermau addysg y plant.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol am yr holiadur, nodwyd y caiff canlyniadau'r holiadur eu hamlinellu yn yr adroddiad. Roedd hefyd opsiwn i ychwanegu geiriad rhydd yn ogystal ag ateb y cwestiynau gosod. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o'r hyn a ofynnwyd a manylion y cyfraddau ymateb. Bwriedir y defnyddir yr holiadur hwn flwyddyn ar flwyddyn fel dull o gymharu.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Nodwyd y meysydd consyrn.
- Nes y sefydlwyd data llinell sylfaen, ni fedrir gwneud cymariaethau pellach ar y cam hwn.
- Mae'r Pwyllgor yn nodi y bu rhai newidiadau o fewn Gwasanaethau Plant a chyflawnwyd llawer hyd yma.
- Yn gyffredinol, nodwyd fod y Pennaeth Gwasanaethau Plant wedi dweud ei bod yn fodlon yn gyffredinol gyda'r adroddiad.

7. **Asesiad Risg Strategol 2016.**

**Cyd-destun:**

Rhoi trosolwg o'r risgiau strategol sy'n wynebu'r awdurdod ar hyn o bryd.

**Materion Allweddol:**

Mae'r asesiad risg yn sicrhau:

- Y caiff risgiau strategol eu dynodi a'u monitro gan yr awdurdod.
- Bod dulliau rheoli risg yn briodol a chymesur.
- Bod uwch reolwyr ac Aelodau etholedig yn adolygu'r risgiau strategol sy'n wynebu'r awdurdod mewn modd systematig.

Cafodd y risgiau presennol ar yr Asesiad Risg Strategol eu diweddaru yn seiliedig ar dystiolaeth oedd ar gael yn 2016. Cafodd newidiadau i bolisi rheoli risg y Cyngor eu cymeradwyo gan y Cabinet ym Mawrth 2015 ac maent yn parhau i gael eu gweithredu i'r gofrestr risg strategol. Y newidiadau hyn yw:

- Cynyddu sgorau risg cyn-lliniaru ac ôl-lliniaru, roedd hyn hefyd yn argymhelliad allweddol o graffu asesiad risg 2014.

- Sicrhau mwy o eglurdeb ar eiriad risg fel bod pob datganiad yn cynnwys digwyddiad, achos ac effaith.

Dim ond risgiau lefel uchel a chanolig a gynhwysir yn yr asesiad risg. Ni chaiff risgiau gweithredol lefel is eu cofrestru os na ragwelir y byddant yn cynyddu o fewn y tair blynedd a gynhwysir. Mae angen i'r rhain gael eu rheoli a'u monitro drwy gynlluniau gwasanaeth timau. Caiff y lefelau risg cyn ac ôl lliniaru eu cyflwyno ar wahân. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae camau lliniaru yn arwain at newid i'r tebygrwydd o'r risg mai nod cyffredinol ein gweithredoedd yw gostwng y cyfle o ddigwyddiad negyddol yn digwydd yn hytrach na lleihau ei effaith. Mae'n amlwg y bydd eithriadau.

Yn dilyn cyflwyniad i'r pwyllgorau dethol, caiff yr asesiad risg ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei lofnodi. Mae'r asesiad risg yn ddogfen fyw a bydd yn esblygu dros y flwyddyn fel y daw gwybodaeth newydd i'r amlwg. Mae log risg cyfredol ar gael i Aelodau ar fewnrwyd y Cyngor - The Hub. Bydd hyn yn sicrhau, yn ogystal â chraffu penodol parhaus yr asesiad risg yn flynyddol, y gall pwyllgorau dethol ailedrych ar yr wybodaeth ar unrhyw adeg yn y flwyddyn i ail-flaenoriaethu eu cynllun gwaith fel sy'n briodol.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol parthed datgeliadau diweddar am rai hyfforddwyr chwaraeon ar draws Prydain, nodwyd y byddai'r mater yma'n aros gyda Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan.

- Byddai data ar salwch ac absenoldeb athrawon ar gael i'r Pwyllgor Dethol. Mae lefelau salwch athrawon yn well na lefelau salwch ehangach staff y Cyngor. Hefyd, gellid dod â lefelau salwch athrawon o gymharu â lefelau salwch disgyblion yn ôl i'r Pwyllgor Dethol

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol am p'un ai a gynhaliwyd asesiad risg yng nghyswllt newid posibl yng ngweinyddiaeth yr Awdurdod ym Mai 2017, oherwydd yr etholiadau lleol sydd ar y gweill, nodir fod cyflenwi blaenoriaethau gwleidyddol yn cael ei gynnwys yn fras drwy un o'r risgiau a ddynodir yn yr adroddiad, h.y. y blaenoriaethau gwleidyddol a gyflenwir. Fodd bynnag, ni ddynodwyd risg penodol yng nghyswllt newid posibl yng ngweinyddiaeth yr Awdurdod.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau 8 Rhagfyr, 2016 am 2.00 pm**

**Casgliad y Pwyllgor:**

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb fel sy'n dilyn:

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.
- Bod y Pwyllgor Data yn derbyn data salwch yn ymwneud â staff ysgolion a disgyblion mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol yn y dyfodol.

**8. Rhestr o gamau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol.**

Derbyniwyd a nodwyd y rhestr o'r camau gweithredu a gwblhawyd yn deillio o gyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2016.

**9. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Penderfynwyd derbyn Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a nodi ei gynnwys.

**10. Cyngor a Busnes y Cabinet - Blaengynllun.**

Penderfynwyd derbyn Blaengynllun Gwaith Busnes y Cyngor a'r Cabinet a nodi ei gynnwys.

**11. Cyfarfod Nesaf.**

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, ddydd Iau 12 Ionawr 2017 am 2.00pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 16.46**